# PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Llun, 20 Ionawr 2020 am 4.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd H Boggis |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd M Griffiths | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd W Jones | |

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr J Fish, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

**34 Ymddiheuriadau**

Apologies for absence were received from County Borough Councillors J. Harries, G. Caple and L. Walker.

**35 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:

Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman at y gollyngiad a gafodd hi gan y Pwyllgor Safonau ar 29 Tachwedd 2019, gan nodi'r canlynol: "Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2020-2021 yn mynd rhagddi" ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid.

**36 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019 yn rhai cywir.

**37 Sylwadau'r Cadeirydd**

Cytunwyd y byddai'r agenda'n cael ei hystyried mewn trefn wahanol, ac y byddai'r eitem

ynglŷn â Rhaglen Waith y Cabinet yn cael ei ystyried yn gyntaf o ganlyniad i'r hyfforddiant sydd ar y gweill o ran 'Deall Cyllideb 2019/20 y Cyngor'.

**38 Rhaglen Waith y Cabinet**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, raglen waith y Cabinet, gyda'r bwriad o nodi eitemau ar gyfer gwaith cyn-craffu (cafodd y Rhaglen Waith Trosolwg a Chraffu ei hatodi hefyd er gwybodaeth).

Cadarnhawyd y byddai'r materion canlynol yn cael eu hadrodd fel y ganlyn:-

- Byddai'r adroddiad Arolwg ISOS yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc cyn cyfarfod y Cabinet, fel bod modd i'r Pwyllgor roi adborth ar yr adroddiad;
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, y byddai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei drefnu er mwyn trafod yr adborth o'r ymgynghoriad ar 'Foderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd i Bobl Hŷn'. Byddai'r holl drigolion yn cael eu gwahodd, gyda chydnabyddiaeth arbennig ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles.

Trafododd yr Aelodau Raglen Waith y Cabinet a chydnabod Rhaglen Waith ar gyfer y dyfodol - y Pwyllgor Trosolwg a Craffu rhwng Ionawr ac Ebrill 2020.

**PENDERFYNWYD** cydnabod rhaglenni gwaith y Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Craffu ar gyfer y dyfodol, a chydnabod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer trafod materion sydd i ddod.

**39 Deall Cyllideb y Cyngor 2019/20**

Gyda chymorth cyflwyniad Power Point, rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o Gyllideb Refeniw 2019/20 a Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd y Cyngor i gynorthwyo eu dealltwriaeth o gyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor. Caiff y cyflwyniad ei rannu â'r holl Bwyllgorau Craffu dros y misoedd nesaf a'i deilwra i'r Pwyllgorau Craffu ar thema unigol.

Derbyniodd yr aelodau drosolwg o gyllideb refeniw'r Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n manylu ar gyllidebau ysgolion unigol a dadansoddiad o'r gyllideb fesul maes gwasanaeth ar gyfer y rhan o'r Grŵp nad yw'n ysgolion. Cafodd manylion eu darparu am y pwysau ariannol posibl ar ysgolion, megis costau athrawon cyflenwi a chostau uwch o ran pensiynau athrawon.

Wrth ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyflawniad Gwasanaethau a'u Gwella fod cyllideb ddigonol ar gyfer cyfraniad yr awdurdod lleol yma i Gonsortiwm Canolbarth y De o'r gyllideb 'sefydliadau nad yw'n ysgolion'. Darparwyd eglurhad hefyd mewn perthynas â'r cyllid ar gyfer darpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer teuluoedd sydd ar gael tan ddiwedd sector Sector Cynradd a/neu Uwchradd y disgybl unigol o'r gyllideb ychwanegol sydd ar gael i dalu costau PYDd.

Yn dilyn trafodaeth, derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad gan y Pennaeth Cyllid - Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, a roddodd ddadansoddiad cyllidebol mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant, Hamdden, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Thai a

Thrawsnewid. Cadarnhawyd bod y ddarpariaeth Gwasanaethau Oedolion ar gael i bobl ifainc 18 oed, ond caiff cymorth gadael gofal ei ddarparu hyd at pan maen nhw'n 25 oed.

Amlygodd y Pennaeth Cyllid - Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant bwyntiau allweddol eraill mewn perthynas â'r gyllideb refeniw, gan gynnwys pwysau a heriau o ran demograffig. Rhoddodd esboniad mewn perthynas â'r 'model ffioedd tecach' sy'n ymwneud â gofal preswyl, sy'n sicrhau bod yr awdurdod lleol yn talu ffi deg i'w ddarparwyr yn y Fwrdeistref Sirol.

Cafodd gwybodaeth cyllideb refeniw ei gyflwyno i'r Aelodau ar gyfer y maes gwasanaeth hwn yn 2019/20, a hynny o ran Ffyniant a Datblygiad (£2.912 miliwn), Gwasanaethau Rheng Flaen (£53.897 miliwn), Prif Weithredwr (£25.812 miliwn) a chyllidebau corfforaethol (£67.852 miliwn).

I gloi, amlinellodd y Pennaeth Cyllid - Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen Raglen Gyfalaf y Cyngor 2019/20 - 2021/22 sy'n rhaglen dreigl tair blynedd. Cyfeiriodd at y cynlluniau allweddol yn y Rhaglen Gyfalaf fel Unedau Busnes Tresalem a Choed-elái, YMCA Pontypridd a'r Rhaglen Amnewid y Fflyd. O ran y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, nodwyd nad yw ffigurau eleni yn cynnwys Ysgolion Band B yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cael eu cyflwyno fel achosion busnes unigol i Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn trafodaeth bellach a'r sylwadau i gloi a oedd yn ymwneud â rhagolwg heriol y cynllun Ariannol Tymor Canolig, atgoffwyd yr Aelodau o'r cynllunio a'r craffu cyson a chadarn ar draws y Cyngor mewn perthynas â'r cyllidebau a'r prosesau sydd ar waith. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am ddarparu trosolwg manwl o gyllidebau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD** cydnabod yr wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â Chyllideb Refeniw 2019/20 y Cyngor a'i Raglen Gyfalaf 3 blynedd.

## 40 Swyddfa Archwilio Cymru - Adroddiad Gwella Blynyddol - Cynnydd Diweddaraf y Cyngor

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Adroddiad Gwelliant Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2018/19 a drafodwyd gan y Cyngor ar 18 Medi 2019. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y cynnydd a wnaed gan y Cyngor hyd yma wrth roi'r cynigion ar gyfer gwella ar waith.

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Craffu i ystyried adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac i werthuso cynnydd y cyngor yn erbyn y camau y cytunwyd arnynt.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, i'r Aelodau benderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar ôl ystyried y cynigion a/neu a oes angen unrhyw atgyfeiriadau at Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth bellach **PENDERFYNWYD** cyfeirio materion cydymffurfio Cam-drin Domestig y Cyngor i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u hadolygu ymhellach.

**41 Adroddiad am y Strategaeth Gynnwys**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ei adroddiad a roddodd gyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ymgymryd â gwaith cyn-craffu o ran y Fframwaith Cynnwys ac Ymgysylltu newydd arfaethedig (2020-2024).

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, fod achlysuron ymgynghori'r Cyngor yn cael eu harwain gan y garfan Polisi Corfforaethol gyda threfniadau cadarn pellach ar waith i gryfhau unrhyw weithgarwch yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at y Fframwaith Cynnwys ac Ymgysylltu drafft atodol sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn adeiladu ar ei drefniadau cyfredol i ymgysylltu, ymgynghori a chynnwys ei breswylwyr a'i randdeiliaid yn y prosesau ymgynghori.

Wrth lunio'r fframwaith, mae'r Cyngor yn cyd-fynd â gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, ac er y bydd hyn yn heriol, bydd e'n dilyn dull cyson gyda'i ymgynghoriadau, gan geisio barn a chryfhau'r diwylliant o ran cynnwys unigolion. Mae nifer o grwpiau eisoes yn rhan o'r broses ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, fel y Fforwm Ieuenctid a Chynghorau Cymunedol a nifer o eraill

Yn ei trafodaeth, croesawodd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r fframwaith, a chydnabod bod angen manteisio ar ddulliau arloesol er mwyn cyrraedd pob grŵp megis defnyddio cyfryngau cymdeithasol, arolygon barn, Twitter. Teimlai'r Aelodau y dylid cynnwys y cysyniad o 'Gyd-gynhyrchu' yn y fframwaith drafft er mwyn sicrhau bod y broses yn gynhwysol, ac annog preswylwyr i deimlo eu bod nhw'n allweddol o ran datblygu'r atebion ac yn rhan annatod o'r broses.

**PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod cynnwys Fframwaith Cyfranogiad ac Ymgysylltu Rhondda Cynon Taf 2020-2024 gan gynnwys defnyddio'r swyddogaeth Craffu i ddilysu cyfranogiad; a
2. Bod y term Cyd-gynhyrchu 'yn cael ei gynnwys yn y fframwaith i nodi bod preswylwyr a rhanddeiliaid yn rhan sylfaenol o'r broses gynnwys'

**42 Dolenni Ymgynghori**

Trafodwyd y cysylltiadau ymgynghori diweddar fel y'u cylchredwyd yn flaenorol i holl Aelodau'r Cyngor. Cyfeiriwyd yn benodol at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau i drefniadau llywodraethu gweithredol y prif gyngor (awdurdodau lleol) gyda'r dyddiad cau ar 27 Chwefror 2020.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cyflwyno ymateb generig i'r ymgynghoriad.

**43 Adolygiad Y Cadeirydd A Dod Â'r Cyfarfod i Ben**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben trwy estyn ei ddiolch i'r holl Aelodau am gyrraedd yn brydlon am 4.30pm i dderbyn yr hyfforddiant mewn perthynas â 'Deall Cyllideb Refeniw 2019/20 a Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd y Cyngor'.

Atgoffodd yr Aelodau y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu nesaf yn cael ei

gynnal ar 10 Chwefror 2020 i adolygu'r adroddiadau canlynol: -

- Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor
- Diweddaru'r Llawlyfr GDPR i'r Aelodau
- Ymateb y Cabinet i argymhellion Cerbydau Carbon Isel

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**